O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 84 (Cy. 21)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd i Gyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), Conwy) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Ionawr 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Chwefror 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

## Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd i Gyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), Conwy) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 1 Chwefror 2021.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S.1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi (p. 32), mae'r pwerau hyn bellach wedi eu rhoi i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

### Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd er mwyn troi i’r dde neu wneud tro pedol o un gerbytffordd i un arall drwy’r bylchau yn y llain ganol ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**7.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Ionawr 2021

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darn o gerbytffyrdd tua’r dwyrain a thua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd hyd at ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), Conwy, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua’r dwyrain a thua’r gorllewin o Gyffordd 11 hyd at Gyffordd 15.

## ATODLEN 2
## Gwahardd troi i’r dde/troeon pedol dros dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at ganolbwynt Cyffordd 13 (Abergwyngregyn).